Drefach Felindre

O'r oesoedd canol hyd ganol y 19eg ganrif, yr oedd cynhyrchu gwlân ymhlith y diwydiannau pwysicaf yng Nghymru. Yn y 19eg ganrif yr oedd pentrefi Drefach Felindre, Waungilwen, Drefelin, Pentrecagal, Cwmpengraig, a Chwmhiraeth yn gilfach ddiwydiannol yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru, gyda bandiau pres, corau meibion ac undeb llafur cryf. Slawer dydd adwaenid yr ardal fel
Huddersfield Cymru, ac yr oedd yn ôl pob tebyg yn cynhyrchu mwy o wlanen nag unrhyw blwyf arall yng Nghymru. Defnyddid y wlanen yn bennaf i ddilladu'r gweithwyr ym maes glo a gweithfeydd dur De Cymru, yn ogystal , milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd ymwelwyr a chanddynt ddiddordeb mewn treftadaeth ddiwydiannol yn cael eu hatgoffa'n gyson o oes aur yr ardal yng nghanol dauddegau'r ugeinfed ganrif, pan oedd dros 50 o felinau yn gweithio. Mae'r mwyafrif o'r gwyddiau wedi mynd bellach, ond mae'r adeiladau yn dal i sefyll. Mae'r hen felinau a'r gweithdai yno fyth ar hyd afonydd Bargod, Brân ac Esgair, fu unwaith yn darparu'r pŵer ar gyfer y peiriannau.

Ceir rhwydwaith helaeth o lwybrau, lonydd a ffyrdd porthmyn hynafol trwy goetiroedd y dyffrynnoedd, ar hyd glannau'r nentydd a thros dir amaethyddol, yn cysylltu'r melinau a'r ffermydd , 'r pentrefi. Maent yn tywys y cerddwr trwy ardal wledig a chanddi gyfoeth o nodweddion archeolegol, cymdeithasol a byd natur.

Mae'r coetiroedd yn wyllt a digyffwrdd eu naws, heb olion amlwg o ymyrraeth dyn. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r llawr yn frith o redyn toreithiog, ac yn y gwanwyn, cyn i'r canopi gau, yn llachar o dan y coed y mae llygad Ebrill , clychau'r gog, a blodau coetir lliwgar eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r tir amaethyddol ar dir uwch rhwng y dyffrynnoedd coediog. Mae'r llwybrau agored dros y caeau yn rhoi golygfeydd gwych o Ddyffryn Teifi a thu hwnt.

Y Llwybrau Cerdded.

Mae'r rhan fwyaf o'r daith ar hyd llwybrau amlwg sydd yn codi'n raddol, ond mae rhai rhannau yn eithaf serth, ac mae angen tipyn mwy o ymdrech i fynd lan y rhain. Mae'n bosibl fod y llwybrau yn lleidiog hyd yn oed yn yr haf, felly cynghorir cerddwyr i wisgo esgidiau cadarn.
Mae'r llwybr coch yn rhyw 4 milltir o hyd, ac mae'r llwybr oren yn rhyw 5 milltir o hyd.

The Walks.

Most of the walking is along well-defined paths of a gentle gradient, though some sections are quite steep and may prove strenuous. The paths may be muddy even in summer, walkers are therefore recommended to wear stout footwear.
The red route is approx. 4 miles long while the orange route is approx. 5 miles long.

Drefach Felindre

From the middle ages until the mid-19th century, woollen manufacturing was amongst the most important industries in Wales. The 19th century villages of Drefach Felindre, Waungilwen, Drefelin, Pentrecagal, Cwmpengraig, and Cwmhiraeth became an industrial enclave in rural west Wales, complete with brass bands, male voice choirs and a strong trade union. The area was once referred to as the Huddersfield of Wales and probably produced more flannel than any other parish in Wales. The material was used mainly to clothe the workers in the South Wales coalfield and steelworks as well as soldiers in the First World War.

Visitors with an eye for industrial heritage will be constantly reminded of the areas heyday of the mid-1920s when over 50 mills were in operation. Most of the looms have gone now, but the buildings remain. The old mills and workshops still line the Bargod, Bran and Esgair streams that once provided the power for the machinery.

An extensive network of ancient paths, tracks and drovers roads thread their way through valley woodlands, along streams and over agricultural land, linking the mills and farms with the villages. They lead the walker through countryside rich in archaeological, social and wildlife interest.

The woodlands have a natural wild feel about them. Year-round, luxuriant ferns carpet the ground and in spring, before the canopy closes, the woodland floor is bright with Celandines, Bluebells, and other colourful woodland flowers. Most of the agricultural land occupies the higher ground between the wooded valleys. The more open aspect of the paths through the fields allow sweeping views to the
Teifi Valley and beyond.

Côd Cefn Gwlad

Dilynwch y Côd Cefn Gwlad.
Defnyddiwch glwydi a chamfeydd i groesi perthi, ffensys a muriau.
Mwynhewch gefn gwlad, a pharchu bywyd a gwaith cefn gwlad.
Gadewch lonydd i anifeiliaid fferm, cnydau a pheiriannau.
Dilynwch lwybrau cyhoeddus ar draws tir amaeth.
Gofalwch fod gennych reolaeth lym ar eich ci.
Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd cefn gwlad.
Diogelwch fywyd gwyllt, planhigion a choed.
Cefnogwch fusnesau a gwasanaethau lleol.
Peidiwch â gwneud swn diangen.
Ewch â'ch sbwriel adref.
Caewch bob clwyd.
Helpwch i gadw pob dŵr yn lân

The Country Code

Please follow the country code.
Use gates and stiles to cross hedges, fences and walls.
Enjoy the countryside and respect its life and work.
Leave livestock, crops and machinery alone.
Support local businesses and services.
Keep to public paths across farmland.
Take special care on country roads.
Protect wildlife plants and trees.
Keep dogs under close control.
Make no unnecessary noise.
Help to keep all water clean.
Take your litter home.
Fasten all gates.

Mwy o wybodaeth

Trafnidiaeth Gyhoeddus.
Yng Nghaerfyrddin y mae'r orsaf drenau agosaf. Mae gwasanaethau bysiau rheolaidd ar gael o Gaerfyrddin ac o Gastell Newydd Emlyn i Dre-fach Felindre.
I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus Ledled Cymru ffoniwch 0870 6082 608.

Mae'r llwybr hwn yn un o gyfres Llwybrau Sir Gaerfyrddin.
I gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau yn y gyfres cysylltwch a'r:
Uned Hamdden Cefn Gwlad.
Ty'r Nant, Parc Busnes Trostre,
Llanelli. SA14 9UT.
Ffon: (01554) 747500
www.sirgar.gov.uk

Capel Soar
Soar Chapel

Gan eich bod wedi mwynhau mynd am dro ar hyd un o'n llwybrau, efallai yr hoffech wybod bod tri Pharc Gwledig yn Sir Gaerfyrddin sef
Parc Gwledig Pen-bre (Llanelli)
Parc Gwledig Gelli Aur (Llandeilo)
a Pharc Gwledig Llyn Llech Owain (Gors-las)
A bod gan y rhain rywbeth at ddant pob un sydd yn mwynhau cefn gwlad.

More Information

Public Transport.
The nearest train station is Carmarthen. Regular bus services run from both Carmarthen and Newcastle Emlyn to Drefach Felindre. For up to date information phone The All Wales Public Transport Information Help Line on 0870 6082 608.

This is one of a series of country walks in Carmarthenshire.
For further information on walks in this series contact:
Countryside Recreation Unit,
Ty'r Nant, Trostre Business Park,
Llanelli, SA14 9UT.
Telephone: (01554) 747500.
www.carmarthenshire.gov.uk

Briallen Primrose

Now that you have enjoyed one of our walks you may like to know there are three Country Parks in Carmarthenshire;
Pembrey Country Park (Llanelli)
Gelli Aur Country Park (Llandeilo)
and Llyn Llech Owain (Gorslas).
All offering excellent opportunities for enjoying the countryside.

Teithiau Sir Gaerfyrddin

Drefach~Felindre

Drefach~Felindre

Carmarthenshire County Walks

Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Drefach~Velindre

Mannau Diddorol

Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol am yr ardal hon yw'r gyfran uchel iawn o goetir a ystyrir yn goetir Hynafol (a ddangosir ar y map gyda lliw piws o'i amgylch). Ystyrir coedwig yn hynafol os bu mewn bodolaeth ers o leiaf 1600. Mae coetiroedd hynafol o'r pwys mwyaf i gadwraeth natur gan eu bod fel arfer yn meddu ar amrywiaeth ehangach o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid na choedwigoedd eraill. Mae rhywogaethau arwyddol yn ein helpu i adnabod coedwigoedd hynafol. Ceir rhai prin fel cwlwm cariad, neu rai anghyffredin fel y biwlith melyn, ond mae eraill yn llawer mwy cyffredin fel clychau'r gog, afalau bach surion a llaethlys y coed. Gellir gweld rhai o'r rhywogaethau arwyddol hyn ar Lwybr y Sir.

1)Cambrian Mills bellach yw lleoliad Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru. Mae ymweliad â'r amgueddfa yn rhoi i'r ymwelydd gipolwg cyfareddol ar orffennol hanesyddol, diwylliannol a diwydiannol yr ardal. Bydd y Llwybr Gwlana yn tywys ymwelwyr o'r amgueddfa i gerdded trwy bentref tecstilau Drefach Felindre. Mae dôl Willy's Meadow, wrth ymyl trigfan ganoloesol Cryngae, yn cael ei datblygu gan yr amgueddfa fel cynefin gwlyb a man astudio.

2)Yn y gwanwyn a'r haf mae'r lôn hon, gyda'i môr o flodau perth lliwgar, yn wledd i'r llygaid.

3)O fis Mai hyd fis Medi gellir darganfod blodau melyn golau y biwlith melyn yn tyfu yn y coetir hynafol hwn, ynghyd ag amrywiaeth o redyn toreithiog sy'n ffynnu yn y lleithder yng nghysgod y canopi.

4)Y drigfan hynaf yn yr ardal hon yw caer Dinas Brân o Oes yr Hàearn. Mae'n gwarchod yr holl ardal o'i safle ysblennydd uwchlaw dyffryn serth afon Brân. Yn anffodus, dros y canrifoedd, fe gafodd ei rhagfuriau amddiffynnol eu haredig, fel na ellir eu gweld mwyach.

5)Yn oes aur y diwyd iant gwlan, bu Bwthyn y Cwm yn weithdy i wehyddion yn gweithio â gwyddiau llaw.

6)Ganrif yn ôl, roedd Cwmhiraeth yn bentref diwydiannol prysur gyd a melinau a gweithdai gwehyddu.

7)Mae pentref Drefelin yn sefyll lle croesa sawl ffordd a llwybr.

Dinistriwyd y tollborth a safai yma yn Sgwâr-y-gat, ynghyd ag eraill yn yr ardal, yn ystod Helyntion Beca. Ym 1843 ni chymerodd Merched Beca, (grŵp o derfysgwyr a wisgai ddillad merched) ddim ond pymtheng munud i'w ddymchwel!

8)Ceir gwenoliaid yn gwibio dros y dolydd a'r nentydd yn yr haf, ac mae'r mieri a'r llwyni ar gyrion y coetir yn gartref i'r llwydfron, y telor penddu a llwyd y gwrych. Mae canol y coetir yn lloches i adar ysglyfaethus fel y barcud, y bwncath a'r dylluan frech.

9)Yn hen ac wedi tyfu'n wyllt yn ei phen dwyreiniol ac wedi'i thocio'n glos yn ei phen gorllewinol, mae'r hen berth amrywiol hon o goed derw, onn, ffawydd, drain gwynion, coed cyll a drain duon, yn gynefin rhagorol ar gyfer adar bach, llygod a phryfetach.

10)Ceir mapgoll, llysiau Steffan, milfyw, a chlychau'r gog ymhlith y sioe o flodau sy'n cystadlu am le gyda'r rhedyn o dan ganopi cysgodol o goed celyn, derw, ffawydd, criafol ac yw.

11)Yng Nghwmpencraig saif Capel Soar gyda'i res dwt o goed tocwaith. Mae'r Capel â'i gefn at ddarn o goetir derw hynafol y mae Llwybr y Sir yn pasio trwyddo. Mae natur amlgoesog llawer o'r coed yn tystio i'r hen arfer traddodiadol o'u tyfu fel prysgoed, lle mae boncyffion yn cael eu tocio i'w bôn yn rheolaidd i ddarparu cnwd o bolion i'w defnyddio fel coed tân a pholion ffensio. Ymhlith planhigion y llawr ceir cyfuniad toreithiog o lus a grug, yn gymysg yma ac acw â rhedyn.

Points of Interest

One of the most astonishing things about this area is the very high proportion of woodland considered to be Ancient woodland. (Shown on the map with a purple surround) A wood is considered ancient if it has been in existence since at least 1600. They are very important for nature conservation as they normally boast a greater variety of plant and animal species than other woods. Indicator species help to identify ancient woods. Some are rare like Herb Paris, or uncommon like Cow Wheat but others are much more common like Blue bell, Crab Apple and Wood spurge. Some of these indicator species can be seen on the County Walks routes.

1) Cambrian Mills now houses the National Woollen Museum. A visit to the museum provides the visitor with a fascinating insight into the areas historical, cultural and industrial past. The Gwlana Trail will take visitors from the museum to a walk through the textile village of Drefach Felindre. Willy's meadow, adjoining the medieval settlement of Cryngae is being developed by the museum as a wetland habitat and study area.

2) In spring and summer this lane with its' mass of colourful hedgerow flowers, is a delight to the eye.

3) From May to September the pale yellow flowers of Common Cow Wheat can be found growing in this ancient woodland along with a variety of luxuriant ferns that thrive in the damp conditions beneath the woodland canopy.

4) The earliest settlement in this area is the Iron Age hill fort of Dinas Bran, it commands the heights over the steep sided river valley of the river Bran. Unfortunately over the centuries its' defensive ramparts have been ploughed away.

5) In the hey day of the woollen industry Cwm Cottage was once a hand-loom weavers workshop.

6) A hundred years ago Cwmhiraeth was a busy industrial village with mills and weaving shops.

7) The village of Drefelin stands at the junction of many roads and tracks.The toll-gate that stood here at Sgwar-y-gat (gate square) was destroyed along with others in the area during the Rebecca riots. In 1843 The Daughters of Rebecca, (all disguised in women's clothes) took only fifteen minutes to demolish it!

8) Swallows dart over the meadows and streams in summer, the brambles and bushes at the woodland edge are home to Whitethroat, Blackcap and Dunnock. The heart of the woodland provides shelter for birds of prey like Red Kite, Buzzard and Tawny Owl.

9) Old and overgrown at its eastern end and tightly clipped at its western end, this varied old hedgerow of Oak, Ash, Beech, Hawthorn, Hazel and Blackthorn is a wonderful habitat for small birds, mice and insects.

10) Wood Avens, Enchanters Nightshade, Lesser Celandine and Bluebell are amongst the array of flowers that jostle for space with ferns under a shady canopy of Holly, Oak, Beech, Rowan and Yew.

11) At Cwmpencraig stands the handsome little Soar Chapel with its trim row of topiary trees. The Chapel backs onto a section of ancient Oak woodland through which the County Walk passes. Many of the trees have a distinctive multi stemmed appearance which results from coppicing, the traditional practice of regularly cutting the tree trunks close to the ground to provide a crop of poles for fuel and fence posts. The ground flora is a lush mix of Bilberry and Heather, studded here and there with Ferns.

Llwybrau a Argymhellir — Recommended Routes
Hawliau Tramwy Eraill — Other Rights of Way
Amgueddfa — Museum
Coetir Hynafol — Ancient Woodland

Noddwyd gan; UNA Cyfnewid Cyngor Sir Caerfyrddin Gyngor Cefn Gwlad Cymru

Supported by; Carmarthenshire County Council WDA UNA Exchange

Cyngor Sir Caerfyrddin Carmarthenshire County Council